Hatch

CANLLAWIAU ARIAN DATBLYGU 2018

ffilm CYMRU WALES

Ffilm Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilm yn ac o Gymru.

Mae arian datblygu 'Hatch' Ffilm Cymru Wales ar gael i gefnogi ffilmiau 'byw' (live-action) i'r teulu cyfan, yn seiliedig ar Eiddo Deallusol sydd eisoes yn bodoli (llyfr, app, neu ddrama lwyfan, er enghraifft).

I wneud cais am arian datblygu ar gyfer prosiectau o unrhyw genre arall, edrychwch ar ein Canllawiau Arian Datblygu safonol. Fel gyda'n holl arian datblygu, bydd prosiectau sy'n cynnwys awdur, cyfarwyddwr neu gynhyrchydd a aned neu sydd wedi eu lleoli yng Nghymru, yn cael blaenoriaeth. Bydd prosiectau sydd â gwerth diwylliannol Cymreig, neu brosiectau fydd yn golygu bod gwariant sylweddol yn cael ei wneud yng Nghymru, hefyd yn cael eu hystyried.

Bydd y rhai sy'n derbyn arian o gronfa Hatch hefyd yn elwa o'r canlynol:

- adborth gan y gynulleidfa darged ar adegau penodol o'r prosiect
- cyfle i rwydweithio a derbyn hyfforddiant gan arbenigwyr yn sgil cymhorthdal gan Ffilm Cymru Wales

Gall Ffilm Cymru gynnig cefnogaeth i ffilmiau nodwedd 'byw' (live action) i'r teulu cyfan, o gyfnod y driniaeth hyd at gamau olaf y cyfnod datblygu, fel castio cychwynnol. Mae cap o £24,999 ar bob cais datblygu unigol, ac rydym yn annog ymgeiswyr i gynnwys amcan bris ar gyfer ffilmio golygfa enghreifftiol neu ragflas byr, yn ogystal ag ar gyfer y gwaith ar y drafft, yn y gyllideb hon.

Bwriad arian datblygu Ffilm Cymru yw cynorthwyo prosiectau sy'n annhebygol o gael eu hariannu'n fasnachol yn ystod eu camau dechreuol, gan roi cyfle id-dynt elwa o gefnogaeth gan y Loteri Genedlaethol.

Dylai pob tîm sy'n gwneud cais am arian datblygu fedru dangos tystiolaeth o waith blaenorol o ran ysgrifennu, cyfarwyddo a / neu gynhyrchu ar gyfer ffilm neu'r teledu.

Mae Ffilm Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu a gwella sector a diwylliant ffilm amrywiol a chynaliadwy sy'n berthnasol i Gymru gyfan. Felly, mae cydraddol-deb, amrywiaeth a chynhwysiad yn greiddiol i'n gwaith, a rydym yn hybu profi gwaith o flaen cynulleidfaoedd yn ogystal â datblygu ED ategol i brosiectau sy'n derbyn arian gennym. Mae Ffilm Cymru yn hyrwyddo Safon BS8909, un o amodau system reoli gynaladwy ar gyfer ffilm, a gynlluniwyd i gynorthwyo'r diwydiant ffilm i gynnal ei fusnes mewn modd sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd.

Os ydych am holi unrhyw gwestiwn ynglŷn â'r canllawiau yma, wedi eu dar-llen, cysylltwch ag applications@ffilmcymruwales.com neu ffoniwch 02921 679369 a gofynnwch am gael siarad gyda'r Gweinyddydd Busnes Creadigol.

PWY ALL YMGEISIO?

Dylai pob cais am arian datblygu Hatch gael ei wneud gan gynhyrchydd y prosiect, sy'n gweithredu fel cynhyrchydd yn unig, gydag awdur ar wahân. Gellir fod ambell i eithriad os oes profiad gan y cynhyrchydd o gyflawni'r ddwy swyddogaeth. Dylai'r cynhyrchydd a'r awdur fod yn berchen ar gredyd ar gyfer un darn o waith, o leiaf, ar gyfer ffilm neu deledu. Os nad ydych yn cwrdd â'r meini prawf yma, yna dylech fynd i dudalen Rhwydwaith Talent Cymru y BFI ar ein gwefan i weld pa gyfleoedd ariannu eraill sydd ar gael. Os ydych yn cwrdd â'r meini prawf yma, gallwch wneud cais am arian os:

- Yw eich prosiect yn cynnwys talent a aned neu sydd wedi ei lleoli yng Nghymru fydd yn gweithredu fel awdur, cynhyrchydd a / neu gyfarwyddwr.
- Yw eich tîm dros 18 mlwydd oed a heb fod mewn addysg llawn amser;
- Ydych yn berchen ar, neu yn y broses o sicrhau'r hawliau (gan gynnwys un-rhyw hawl sylfaenol) ar gyfer y prosiect;
- Oes gennych y gallu i wneud y cais drwy gwmni sydd wedi ei gofrestru a'i reoli'n ganolog yn y DU neu yn un o daleithiau'r Undeb Ewropeaidd neu yn Adran Economaidd Ewropeaidd.

Bydd unrhyw un o'r ceisiadau isod yn cael eu derbyn yn sgil gwahoddiad, a dan amgylchiadau arbennig yn unig:

- Cynhyrchwyr prosiect sydd â gwerth diwylliannol Cymreig arwyddocaol ond nad yw'r awdur, y cynhyrchydd na'r cyfarwyddwr wedi eu geni nag wedi eu lleoli yng Nghymru;
- Awduron neu awduron-gyfarwyddwyr unigol a aned neu sy'n byw yng Nghymru;
- Rhywun sy'n gwneud ffilm am y tro cyntaf a aned neu sy'n byw yng Nghym-ru.

PA BROSIECTAU SY'N GYMWYS?

Mae ein harian datblygu Hatch ar gael i gefnogi:

- Ffilmiau nodwedd 'byw' unigol i'w rhyddhau mewn theatrau ac ar gyfer y gynulleidfa deuluol;
- Ffilmiau sy'n addas i'w cymhwyso fel ffilmiau Prydeinig yn unol ag Amserlen 1 Deddf Ffilmiau 1985 (Y Prawf Diwylliannol), un o gytundebau cyd-gynhyrchu swyddogol y DU NEU'r Confensiwn Ewropeaidd ar Gyd-gynhyrchu ;
- Ffilmiau sy'n gymwys ar gyfer sicrhau Tystysgrif Universal neu PG yn unol â Chanllawiau'r BBFC ;
- Ffilmiau uchelgeisiol a gwreiddiol sy'n annhebygol o gael eu noddi'n gyflawn gan y sector masnachol a / neu;
- Ffilmiau sydd wedi eu targedu at gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu cyn-rychioli'n ddigonol mewn dulliau creadigol a didwyll.

Fel Cronfa Loteri gallwn ystyried rhoi arian i brosiectau sy'n cael eu cyflwyno drwy broses ymgeisio ffurfiol yn unig. Golyga hyn nad yw'n bosibl i ni dderbyn neu ddarllen ceisiadau anffurfiol fel sgriptiau neu ddeunyddiau ymgeisio sy'n cael eu cyflwyno drwy unrhyw ddull arall.

Mae hawl gan gynhyrchwyr gyflwyno sawl cais ar yr un pryd a bod yn gweithio ar nifer o brosiectau mewn datblygiad gyda ni, os oes timoedd creadigol gwa-hanol gan bob un. Fodd bynnag, os oes gennym brosiect arall mewn datblygi-ad ar hyn o bryd gan yr un awdur neu gyfarwyddwr, gallai hyn effeithio ar ein penderfyniad ariannu.

SUT MAE YMGEISIO?

Gwahoddir unigolion a thimau sydd â diddordeb mewn ymgeisio am arian o gronfa Hatch, i fynychu ein digwyddiad Lansio yng Nghaerdydd ar y:

29ain Mai (10:00 - 17:00).

Gyrrwch eich ymateb drwy e-bost at applications@ffilmcymruwales.com.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Hatch yw:

29ain Mehefin (17:30 GMT)

Er mwyn gwneud cais am arian, bydd angen i chi lawr lwytho ffurflen gais Hatch o'n gwefan. Os oes well gennych gwblhau copi caled o'r ffurflen, gyrrwch e-bost at applications@ffilmcymruwales.com neu ffoniwch 02921679369 er mwyn gofyn i ni yrru ffurflen atoch.

Mae'r ffurflen gais yn cynnwys nifer o gwestiynau ynglŷn â'ch tîm a'ch prosi-ect ffilm fydd yn ein galluogi i ddeall yn union beth yw potensial creadigol eich prosiect, a'i botensial o ran cynulleidfa; pa mor hyfyw yw'r prosiect; beth yw'r manteision i Gymru. Bydd angen i chi hefyd gyflwyno'r canlynol gyda'ch ffur-flen gais:

- triniaeth ar gyfer y ffilm o hyd at ddeg tudalen ac enghraifft o waith ysgrif-enedig yr awdur NEU
- drafft o sgript y prosiect yr ydych yn gwneud cais am arian datblygu ar ei gyfer, yn ogystal â
- copi o'r ED cyfredol y mae'r prosiect wedi ei seilio arno.
- Statws o'r cytundeb o ran opsiwn / hawliau sylfaenol
- CVs ar gyfer aelodau allweddol y tîm
- Ffurflenni Monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad (EDI) ar gyfer holl aelodau craidd y tîm (awdur, cyfarwyddwr, cynhyrchydd).

Ni fydd eich cais yn gyflawn hyd nes y byddwn wedi derbyn pob un o'r eitem-au hyn.

Cofiwch ein bod yn derbyn llawer mwy o geisiadau nag sy'n bosibl i ni eu cefnogi, felly mae'n hollbwysig eich bod yn sicrhau bod eich cais yn gwbl nodedig.

Mae'n well gyrru'r holl ddogfennau ategol fel cyswllt storfa ar-lein unigol, gan ddangos hyn yng nghorff eich cais yn hytrach na fel atodiadau unigol.

Nid oes raid i Ffilm Cymru ddarllen yr holl wybodaeth ategol.

MANYLION Y GYLLIDEB

Cofiwch ystyried y canlynol wrth gwblhau eich cais:

- Mae Ffilm Cymru yn cynnig arian datblygu ar gyfer y camau penodol sy'n rhaid eu cymryd wrth ddatblygu prosiect. Dylech wneud cais am y costau sy'n berthnasol i gam nesaf datblygiad eich prosiect, yn hytrach na'r gyllideb ddatblygu gyfan.
- Mae cap o £24,999 ar ddyfarniadau ariannol Hatch, ac rydym yn annog ymgeiswyr i gynnwys y costau ar gyfer ffilmio golygfa enghreifftiol neu rag-flas, ochr yn ochr â'r gwaith ar y drafft, yn y gyllideb.
- Gall Ffilm Cymru gyfrannu hyd at 75% o gostau'r gyllideb gyfan ar gyfer y prosiect (neu hyd at 100% ar sail cyfraniadau mewn da sy'n cael eu gwneud gan yr ymgeisydd, sy'n cynrychioli 25%). Rydym yn croesawu cyfraniad ari-annol gan drydydd parti.
- Nid all Ffilm Cymru gynnig arian ôl-weithredol, a dylech sicrhau fod pob eitem llinell sydd yn y gyllideb yn synhwyrol. Ni allwn gefnogi, er enghraifft, teithio yn y dosbarth cyntaf, llety neu gynhaliaeth gyffredinol.
- Bydd Ffilm Cymru yn eich cynghori ynglŷn â'r ffioedd sy'n rhesymol i awdur neu gyfarwyddwr eu cael, yn ddibynnol ar brofiad. Os ydych wedi goram-canu'r costau yma byddwn yn gofyn i chi eu lleihau fel amod o'n cynnig ari-annol, felly, ble fo hynny'n bosib, ni ddylech gadarnhau unrhyw drafodae-thau na chytundebau cyn trafod o flaen llaw gyda Ffilm Cymru.
- Bydd holl arian datblygu Ffilm Cymru yn cael ei ad-dalu o'r gyllideb gynhyr-chu. Os ydych yn bwriadu cynhyrchu ffilm nodwedd â chyllideb fechan iawn yna dylech sicrhau nad yw'r holl gostau datblygu yn anghymesur i gyllideb y ffilm.
- Bydd Ffilm Cymru yn cyfrannu tuag at gostau sicrhau unrhyw opsiwn os yw'n berthnasol i ddarn o waith sydd eisoes yn bodoli ac y gellid ei ecsbloetio ar wahân, ar gyfer e.e. nofel neu ddrama. Dylai'r cyfnod opsiwn bara am leiafswm o 18 mis, felly dylai'r gyllideb adlewyrchu hyn.
- Mae Ffilm Cymru yn disgwyl i'r cynhyrchydd sicrhau y bydd yr holl hawliau ym mhob drafft o'r sgript yn cael eu trosglwyddo, fel amod o dderbyn arian gennym. Gellir gwneud rhai eithriadau os yw'r awdur wedi ysgrifennu sgript heb dderbyn ffi, ac os nad yw'r cais am arian yn cynnwys ffi i'r awdur felly gallai opsiwn fod yn ddigonol, wedi trafod gyda Ffilm Cymru;
- Os ydych yn gofyn i Ffilm Cymru gyd-ddatblygu'r prosiect ochr yn ochr ag ariannwyr eraill, nid yw hyn yn golygu y gellir cynyddu na dyblu'r costau. Mae'n rheol gan y loteri mai cyfanswm o 75% o arian yn unig sy'n berthnasol i'r buddsoddiad a wneir ar y cyd gan ariannwyr loteri;
- Yr uchafswm gall Ffilm Cymru Wales ei roi tuag at ffilm fer hunan-gynwysedig, sy'n cefnogi prosiect nodwedd, yw £10,000.
- Yr uchafswm gall Ffilm Cymru Wales ei roi tuag at gefnogi mynediad yw £2,000.
- Rhaid i'r costau cyffredinol beidio â bod yn fwy nag uchafswm o 20% o gos-tau'r sgript (ffi'r awdur a chostau golygydd sgript allanol).
- Mae'n rhaid i chi atodi cyllidebau manwl os ydych yn gwneud cais am arian tuag at weithdai, rhaglenni peilot / rhagflas, a / neu ffilmiau byrion hunan-gynwysedig.

CYFLWYNO

Dylech e-bostio eich cais gorffenedig at applications@ffilmcymruwales.com erbyn 5:30pm ar y dyddiad cau.

Neu gallwch yrru eich ffurflen gais drwy'r post at:

Ffilm Cymru
Tramshed Tech
Stryd Pendyris
Caerdydd
CF11 6BH
I Sylw: Y Swyddog Datblygu

BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I MI GYFLWYNO FY NGHAIS?

Byddwch yn derbyn e-bost yn cadarnhau i ni dderbyn eich cais o fewn 1 wythnos i'r dyddiad cau perthnasol. Bydd yr e-bost hwn yn cynnwys cyfeirnod a dolen at ein Ffurflen Monitro EDI. Rhaid i bob aelod craidd o'ch tîm (awdur, cyfarwyddwr, cynhyrchydd) lenwi'r ffurflen hon cyn y gellir asesu eich prosi-ect. Mae opsiwn 'gwell gen i beidio â dweud' ar gyfer pob cwestiwn.

Os yw'ch cais yn anghyflawn neu os nad yw'n gymwys, byddwn yn eich hys-bysu nad yw'ch prosiect wedi symud ymlaen i'r cam asesu. Os yw'ch cais yn anghyflawn oherwydd camgymeriadau, byddwn yn cynnig amserlen be-nodedig i chi er mwyn i chi gywiro unrhyw wallau cyn i'r prosiect fynd ymlaen i'r cam asesu. Os yw'ch cais yn gymwys i dderbyn arian, yn unol â'r meini prawf uchod, bydd eich prosiect yn symud ymlaen i'r cam asesu.

Bydd pob cais am arian hyd at £24,999 yn cael eu hasesu gan dri aelod o'r tîm canlynol:

Pennaeth Busnes Creadigol, Rheolwr Cynhyrchu a Phrosiectau Arbennig, Uwch Swyddog Datblygu, Prif Weithredwr.

ASESU

Os yw'ch prosiect yn gymwys bydd y panel yn ystyried y Meini Prawf Asesu canlynol cyn penderfynu a fyddem yn hoffi rhoi arian i chi ar gyfer eich prosi-ect:

- Cryfderau'r tîm cynhyrchu ffilmiau;
- Cryfderau creadigol y prosiect;
- Dichonoldeb y prosiect: a yw eich amcangyfrif ar gyfer y gyllideb a'r aw-grymiadau ariannol yn synhwyrol a'n addas ar gyfer y prosiect hwn?;
- Dealltwriaeth y tîm o ran cynulleidfa'r prosiect, a llwybr(au) posib y prosiect at y gynulleidfa honno, gan gynnwys unrhyw gynnwys ED neu farchnata at-egol;
- Potensial y prosiect ac ymrwymiad y tîm i hyrwyddo ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant;
- Gwerth Cymreig y prosiect ar-sgrin, tu ôl i'r camera a / neu i gynulleidfa-oedd;
- Cymhwyster y prosiect i dderbyn cefnogaeth y Loteri Genedlaethol;
- Balans ein buddsoddiadau yn gyffredinol.

Bydd y broses asesu hefyd yn ystyried sut mae'r ymgeisydd wedi rheoli un-rhyw gyllid blaenorol a gafwyd gan Ffilm Cymru.

Gallwn ddefnyddio darllenwyr sgript allanol wrth asesu ceisiadau.

Gallwn ofyn am wybodaeth neu ddeunyddiau pellach oddi wrthych.

Unwaith fydd yr asesiad wedi'i gwblhau, rhoddir gwybod i brosiectau os ydynt wedi llwyddo yn eu cais am arian datblygu o fewn 6 wythnos i'r dyddiad cau.

Mae penderfyniadau'r panel a / neu'r bwrdd yn derfynol.

ADBORTH

Gan ein bod yn derbyn cynifer o geisiadau, nid oes gan Ffilm Cymru'r adnod-dau i gynnig adborth ar bob prosiect.

Dan yr amgylchiadau yma byddwch yn derbyn e-bost arferol yn gwrthod eich cais.

Dan rai amgylchiadau, fodd bynnag, gallwn gynnig adborth byr. Nid oes yn rhaid i'r tîm weithredu'r adborth hwn, ac nid yw'r ffaith eich bod yn gweithredu arno'n sicrhau y byddwch yn derbyn arian yn y dyfodol.

Mae Ffilm Cymru yn derbyn llawer mwy o geisiadau nag y gallant eu cefnogi. Gwrthodir ceisiadau am nifer o resymau, gan gynnwys, ym mysg eraill:

- Cymhwyster;
- Parodrwydd y tîm i wneud ffilm nodwedd ar y lefel yma;
- Gwreiddioldeb y deunydd;
- Pa mor briodol yw lefel y gyllideb ar gyfer y deunydd;
- Unrhyw elfen arall sy'n berthnasol i'n Meini Prawf Asesu.

AILGYFLWYNO

Ni ellir ail-gyflwyno ceisiadau sydd eisoes wedi eu gwrthod heb dderbyn cymeradwyaeth Ffilm Cymru o flaen llaw. Dylai unrhyw gais sy'n cael ei ail-gyflwyno gynnwys newidiadau sylweddol: er enghraifft, ail-ysgrifennu syl-weddol, neu gynhyrchydd gwahanol.

Os ydych yn cwrdd â'r meini prawf yma ac yn cyflwyno cais newydd ar gyfer yr un prosiect, rhaid i chi nodi'n glir pa elfennau o'ch prosiect sydd wedi eu diwygio o fewn y cais.

LLINELL AMSER

1 wythnos wedi dyddiad cau cyflwyno'r cais:	E-bost yn cadarnhau i ni dderbyn eich cais
6 wythnos wedi dyddiad cau cyflwyno'r cais:	Eich hysbysu o'r penderfyniad i gymeradwyo neu wrthod eich caisommunicated

BETH SY'N DIGWYDD OS RWYF YN DERBYN ARIAN?

Os yw eich cais yn llwyddiannus, yn y lle cyntaf byddwch yn cael llythyr o gynnig. Mae Ffilm Cymru'n cadw'r hawl i gynnig swm sy'n is na'r hyn ofynnwyd amdano, neu i newid sut yr ydym yn rhannu'r arian fesul eitem llinell, mewn ymgynghoriad â chi. Nid darparu cefnogaeth ariannol i brosiectau yn unig mae Ffilm Cymru'n ei wneud, rydym hefyd yn helpu i arwain a llywio prosiectau a thalent yn greadigol ac yn fasnachol. O'r herwydd, rydym yn gofyn i chi drosglwyddo rhai elfennau allweddol fel drafft o sgript a chytundebau i ni, a byddwn yn aml yn cynnig nodiadau golygyddol a chyngor er mwyn cefnogi'r prosiect. Dylech ganiatáu pedair wythnos o'r dyddiad y byddwn yn derbyn un-rhyw un o'r elfennau hyn er mwyn i'r swyddog sy'n gyfrifol ddarparu nodiadau ac adborth i chi cyn i chi ddechrau a y cam nesaf.

Fe'ch gwahoddir i fynychu sesiwn hyfforddi Magnifier, yn rhad ac am ddim, lle byddwch yn cael cyfle i archwilio ED ategol, yn ogystal â syniadau ynglŷn â datblygu cynulleidfa, gyda chefnogaeth arbenigwyr y diwydiant.

LLYTHYR O GYNNIG

Cynigir eich arian datblygu fesul rhandal, wrth i chi gychwyn ar a chyflawni camau penodol o'r prosiect.

Bydd manylion y rhandaliadau hyn ar gael yn eich llythyr o gynnig, yn ogystal â'r dyddiadau perthnasol ar gyfer y camau datblygu sy'n cael eu hariannu. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau fod y targedau yma'n cael eu cyrraedd ar y dyddiadau penodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig os fyddwch wedi derbyn opsiwn ar gyfer unrhyw waith sylfaenol, gan ei bod yn rhaid i chi sicrhau fod y gwaith datblygu'n cael ei gwblhau yn ystod y cyfnod opsiwn. Ni ddylech ragdybio y bydd Ffilm Cymru yn darparu arian ychwanegol i gwrdd â chostau adnewyddu unrhyw opsiwn, yn enwedig os yw'r gwaith wedi ei gwblhau yn hwyr. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau fod y prosiect yn aros 'o fewn opsiwn' (bydd methu â gwneud hynny yn golygu eich bod wedi torri eich cytundeb gyda Ffilm Cymru), ac mae eich ymrwymiad chi i ariannu unrhyw waith adnewyddu fydd angen ei wneud ar yr opsiwn yn dyst eich bod yn parhau'n ffyddiog yn y prosiect.

Fel rheol, bydd eich dyfarniad yn cael ei ailgylchu bob 6 mis, os nad yw'r arian wedi dechrau cael ei ddefnyddio yn ystod y cyfnod hwnnw.

CYTUNDEB FFURF-HIR

Unwaith y bydd eich llythyr o gynnig wedi'i weithredu, bydd gofyn i chi ymrwymo i gytundeb ffurf-hir gyda Ffilm Cymru sy'n nodi telerau ac amodau ein harian datblygu. Bydd yr amodau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Bydd gofyn i chi sefydlu neu ddarparu manylion cwmni cyfyngedig sydd wedi ei gofrestru gennych chi yn y DU, neu sydd wedi'i ymgorffori yn yr Un-deb Ewropeaidd neu Ardal Economaidd Ewropeaidd;
- Bydd gofyn i chi sefydlu neu ddarparu manylion ar gyfer cyfrif banc a dref-nwyd gennych chi ac yn enw eich prosiect;
- Bydd angen i chi gadarnhau'r hawliau ar eich prosiect, a bydd FfCW yn gofyn am gymeradwyo rhai elfennau penodol sy'n ymwneud â'r prosiect, gan gynnwys yr holl 'gadwyn deitl'; dogfennau clirio; ffynonellau a symiau un-rhyw nawdd arall. Mae'n rhaid i chi ddatgelu'r holl ddogfennaeth sydd eisoes yn ei lle parthed y prosiect, a'r holl gostau hanesyddol sydd wedi bod hyd yma;
- Bydd gofyn i chi ad-dalu'r dyfarniad, sef 50% o'r premiwm, ddim hwyrach na diwrnod cyntaf y gwaith prif ffotograffiaeth ar y prosiect. Bydd Ffilm Cymru hefyd yn cymryd cyfran o 2% o net y cynhyrchydd yn y prosiect. Pe bai ari-annwr arall yn cymryd cyfran o hawlfraint y prosiect, bydd Ffilm Cymru'n cymryd cyfran gyfatebol;
- Bydd gofyn i chi ddarparu credyd priodol i Ffilm Cymru gan gynnwys logos Ffilm Cymru a'r Loteri Genedlaethol;

- Bydd gofyn i chi ymuno â Chod Ymddygiad Ffilm Cymru i fynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu yn y diwydiant, a bydd gofyn i chi ddatblygu ac adrodd yn erbyn y Cynllun EDI a amlinellwyd yn wreiddiol yn eich cais;
- Bydd gofyn i chi fynychu sesiwn hyfforddi Magnifier, yn rhad ac am ddim, lle gewch gyfle i archwilio ED ategol a syniadau ar gyfer datblygu cynulleidfa-oedd, gyda chefnogaeth arbenigwyr y diwydiant;
- Bydd gofyn i chi gwblhau'r gwaith datblygu erbyn y dyddiadau penodol, neu bydd rhaid i chi ad-dalu'r arian;
- Bydd gofyn i chi gyflwyno datganiad o'r costau terfynol, ac unrhyw sylwadau, er mwyn tynnu'r rhandaliad terfynol ar eich dyfarniad i lawr;
- Bydd unrhyw danwariant ar yr arian yn cael ei gadw gan neu ei ad-dalu i Ffilm Cymru;
- Bydd darpariaethau terfynu safonol yn berthnasol.

BETH SY'N DIGWYDD PAN FYDD Y DYFARNIAD WEDI EI GWBLHAU?

Pan fydd eich dyfarniad wedi ei dalu (ac eithrio unrhyw danwariant a gedwir gan Ffilm Cymru), dylech gael sgwrs gyda'r uwch swyddog sy'n gyfrifol am eich prosiect, er mwyn trafod y camau perthnasol nesaf. Gallai hyn gynnwys adnabod y canlynol:

- bod angen gwaith datblygu pellach ar y prosiect. Yn yr achos hwn byddwch yn cael ei gwahodd i gyflwyno cais arall am arian datblygu- a gellir ei gyflwyno y tu allan i'n dyddiadau cau arferol ar gyfer arian datblygu; asesir y cais hwn mewn perthynas â'r rheolaeth a'r cynnydd a welwyd yn ystod y cyfnod datblygu blaenorol. Ni ellir gwneud unrhyw gais newydd am arian datblygu ar gyfer prosiect sydd â dyfarniad datblygu gweithredol ynghlwm ag ef eisoes. Bydd pob dyfarniad arall ar gael ar yr un telerau ac amodau â'r arian cychwynnol;
- bod y prosiect yn barod i dderbyn arian cynhyrchu. Mae'n bosibl i chi godi arian ar gyfer hyn yn annibynnol, neu efallai eich bod yn awyddus i gyflwyno cais am arian cynhyrchu i ni.

AMODAU CYFFREDINOL ARIAN LOTERI FFILM CYMRU

1. Gall y wybodaeth yn y canllawiau yma newid. Gall y gyfraith a rheoliadau'r Llywodraeth parthed rhannu arian y Loteri Genedlaethol newid. Felly, mae Ffilm Cymru'n cadw'r hawl i adolygu'r cynllun ariannu hwn a / neu newid y polisïau, y dulliau gweithredu a'r meini prawf perthnasol.
2. Nid yw'r cais, o anghenraid, yn ymdrin â'r holl wybodaeth a ddefnyddir gan Ffilm Cymru i benderfynu pa geisiadau i'w hariannu. Gall Ffilm Cymru ofyn am ragor o wybodaeth gan ymgeiswyr.
3. Gwneir pob cais ar risg yr ymgeisydd ei hun. Ni fydd Ffilm Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw golledion, niwed neu gostau all godi'n un-iongyrchol neu'n anuniongyrchol o:
    - y broses ymgeisio;
    - penderfyniad Ffilm Cymru i roi nawdd i ymgeisydd; neu
    - wrth drin y cais.
4. Byddwch mor garedig â darllen eich ffurflen gais yn fanwl. Ni fydd Ffilm Cymru'n prosesu ceisiadau anghyflawn na cheisiadau nad ydynt yn cydymf-furfio â'r canllawiau yma.
5. Mae penderfyniadau Ffilm Cymru ar geisiadau yn derfynol.
6. Ni fydd Ffilm Cymru'n rhyddhau unrhyw arian nes i ni dderbyn copi llawn o'r cytundeb ariannu ar ffurf hir, ac unrhyw amodau sy'n gynsail i'r cytundeb sydd wedi'u bodloni neu eu hepgor gan Ffilm Cymru.
7. Bydd Ffilm Cymru'n cyhoeddi'r wybodaeth ynglŷn â nifer y ceisiadau a dderbyniwyd a'r dyfarniadau a wnaethpwyd. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys enw'r ymgeisydd llwyddiannus, swm y dyfarniad, enw'r prosiect a manylion y prosiect.
8. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi hawl i'r cyhoedd ofyn am wybodaeth benodol a gadwyd mewn perthynas â'r ceisiadau a wneir i raglenni a chynlluniau Loteri Genedlaethol Ffilm Cymru. Felly, os ydych yn dewis gwneud cais i Ffilm Cymru dylech fod yn ymwybodol y gellir datgelu'r wybodaeth y byddwch yn ei gyrru atom, naill ai'n rhannol neu'n gyfangwbl, yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
9. Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir i Ffilm Cymru yn cael ei thrin yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a'r holl ddarpariaethau cyfreithiol cysylltiedig sy'n ymwneud â diogelu data. Defnyddir y wybodaeth a ddarperir gennych i asesu eich prosiect, i gyflawni cytundeb ariannol gyda Ffilm Cymru, i adrodd i'n rhan ddeiliaid a / neu i gydymffurfio â chyfraith ehangach. Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth a gedwir gan Ffilm Cymru yn y cofnodion. Mae gennych hefyd hawl i ofyn i Ffilm Cymru gywiro unrhyw beth sy'n anghywir yn eich gwybodaeth.
10. Bydd yr holl wybodaeth bersonol a sensitif a ddarperir i Ffilm Cymru, ffurflenni monitro EDI, er enghraifft, yn cael eu cadw mewn fformat anhysbys ar gyfrifiadur am ddwy flynedd, a gellir ei defnyddio at ddibenion ystadegol wedi hynny.
11. Mae gan Ffilm Cymru'r hawl i wrthod neu i adennill unrhyw arian os y cwblhawyd y cais yn anonest, neu gan ddefnyddio gwybodaeth sy'n anghywir neu'n gamarweiniol am y sefydliad neu'r prosiect, a hynny naill ai'n fwriadol neu'n ddamweiniol; a / neu os yw'r sawl sy'n derbyn arian gennym yn gweithredu'n anonest neu'n esgeulus all roi'r prosiect dan anfantais. Bydd Ffilm Cymru yn dilyn achosion o dwyll amheus a bydd yn trosglwyddo gwybodaeth i'r heddlu.
12. Mae Ffilm Cymru'n mynnu bod unrhyw fesurau a gymerir gan ymgeiswyr i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn cydymffurfio'n llwyr â Deddf Cydrad-doldeb 2010.
13. Ni fydd apeliadau ffurfiol yn erbyn y penderfyniad terfynol yn cael eu hys-tyried oni bai fod gan yr ymgeisydd achos da i gredu na lynwyd at y gweithdrefnau cywir ar gyfer prosesu'r cais, neu iddynt gael eu gweithredu mewn modd oedd yn anfanteisiol i'r cais. Mae copi o'n Gweithdrefn Adborth a Chwynion i'w gael ar ein gwefan.
14. Rhaid i unrhyw wrthdaro o ran buddiannau gael eu datgan gan ymgeiswyr yn eu cais - mae'n rhaid hysbysu Ffilm Cymru, er enghraifft, os oes aelod o staff yn ymwneud â phrosiect neu dîm.
15. Mae Ffilm Cymru yn gofyn i bob un o'i bartneriaid a phawb sy'n derbyn ari-an ganddynt i amlygu cyfraniad y Loteri Genedlaethol drwy hyrwyddo ac arddangos logo'r Loteri Genedlaethol, ynghyd â logo Ffilm Cymru, a thrwy gydnabyddiaeth ysgrifenedig a llafar a gytunwyd arno.

ATODIAD

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 (Diwygiwyd yn 1998) yn amlinellu'r prif feini prawf rhaid eu hystyried wrth drafod ceisiadau ariannol. Mae Ffilm Cymru Wales yn dehongli'r rhain fel a ganlyn:

SAFON ARTISTIG

Mae Ffilm Cymru Wales yn ceisio cefnogi ffilmiau gwreiddiol a dramatig.

BUDD CYHOEDDUS

Gellir cyflawni hyn drwy amrywio amrediad y deunydd sinematig a ddarperir; rhoi proffil i dalent newydd, neu wella cynrychiolaeth cymunedau nad ydynt wedi eu cynrychioli'n ddigonol yn y gorffennol, er enghraifft.

DATBLYGIADAU NEWYDD

Ni chaniateir amnewid arian y loteri. Hynny yw, ni ddylai gymryd lle ffynonellau ariannol eraill sydd ar gael ar gyfer unrhyw brosiect penodol. Fodd bynnag, gellir ei ddefnyddio i ddenu buddsoddiad pellach i brosiectau. Gellir defnyddio ein harian mewn partneriaeth ag arianwyr Loteri eraill, yn amodol ar gap cyffredinol o 50% o ffynonellau Loteri.

HYFYWEDD ARIANNOL

Byddwn yn ystyried hyfywedd ariannol y prosiect, a chydnawsedd gwahanol elfennau ariannol telerau nawdd y Loteri. Bydd angen i'r ceisiadau feddu ar gyllidebau sy'n addas ar gyfer cynulleidfa darged y prosiect, a'r farchnad derfynol.

PARTNERIAETHAU ARIANNOL

Bydd rhaid i'r ymgeiswyr ddangos cadarnhad ysgrifenedig o bartneriaethau ariannu a manylion o'r telerau a'r amodau. Nid yw'n debygol y bydd arian cynhyrchu yn cael ei gynnig os nad oes elfen o bartneriaethau ariannu yn bodoli.

GALW AMLWG

Mae Ffilm Cymru Wales yn ceisio cefnogi prosiectau ffilm sy'n dangos eu bod yn debygol o gael eu dosbarthu. Nid yw prosiectau sy'n annhebygol o gael eu dosbarthu yn debygol o fod o fudd i'r cyhoedd gan fethu cwrdd â meini prawf ariannu'r Loteri. Mae Ffilm Cymru Wales yn ceisio cefnogi amrediad eang o ffilmiau o ran genres a chyllidebau, ond ym mhob achos dylai'r prosiectau feddu ar gyllidebau addas, gan adlewyrchu'r potensial tebygol o ran cynulleidfa. Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr gynnwys ffigyrau gwerthu, wedi eu cyflenwi gan asiantaeth gwerthu profiadol a/neu dystiolaeth o ddiddordeb gan Ddosbarthwr Prydeinig.

RHEOLAETH EFFEITHIOL

Mae Ffilm Cymru Wales yn gyfrifol am wariant arian cyhoeddus, ac felly rhaid i'r corff fodloni ei hun fod yr ymgeisydd yn debygol o drosglwyddo'r gwaith yn unol â'r gyllideb a'r amserlen, gan ddefnyddio'r arian ar gyfer y diben a fwriadwyd.

ffilm
CYMRU WALES

UNIT 6
TRAMSHED TECH
PENDYRIS STREET
CARDIFF
CF11 6BH

+44(0)2921 679369
enquiries@ffilmcymruwales.com
www.ffilmcymruwales.com

Awarding funds from The National Lottery®
BFI Film Forever
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government